Cyfarfod Rhanddeiliaid Sector Ysgolion Taith - Crynodeb
Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024
12.00– 1.00pm
Cyfarfod a gynhaliwyd dros Teams

Rhestr o'r bobl a fu'n bresennol	
Yn bresennol:	Sion James, Swyddog Prosiect, Taith (SJ) (Cadeirydd) Amanda Morgan, International Links Global Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru Annika Axelsen, Prifysgol Caerdydd Bethan Everitt, Prifysgolion Cymru (rhaglen Cymru Fyd-eang) Carole Phillips, Grŵp Addysg Jig-so Cath Moulogo,Dolen Cymru Lesotho Christy Anson-Harries, Coleg Sir Gar a Choleg Ceredigion Danial Ashman, Coleg Gwent Donna Davies-Piper, Coleg Gŵyr Abertawe Emily Morris, Coleg Caerdydd a'r Fro Helen Jones, CWVYS Howard Williamson, Prifysgol De Cymru Kari Morgan, BGC Cymru Kevin McStravock, QAA Lisa Williams, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Liz Millman, Learning Links International CIC Lyndsey Thomas, GISDA Manon Williams, Gwaith Ieuenctid Cymru /CWVYS Marian Gray, Prifysgol Aberystwyth Michaela Rohmann, WCIA Natalie Kendrick-Doyle, Reaching Wider USW Pamela Heidt, Prifysgol Aberystwyth Paul Glaze, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) Ryan Sheppard, Ysgol Portfield Richard Gordon, Coleg Caerdydd a'r Fro Rose Matthews, Prifysgol Caerdydd Rowena Kidger, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

	Sian Smith, Ysgol Uwchradd Llanwern Silviana Rizea, Coleg Caerdydd a'r Fro Stella Warren, Academi Celtic English Val Clarke, Dysgu Oedolion yn y Gymuned CBSRhCT Vicky Thomas, ColegauCymru
Cyfieithydd	Walter Brooks, Rheolwr Rhaglen, Taith
Ymddiheuriadau:	Dim
Swyddog Gweithredol Rhaglen Taith (TPE):	Susana Galvan Hernandez, Cyfarwyddwr Gweithredol, Taith (SGH) Claire Richardson, Swyddog Prosiect, Taith (CR) Ellie Bevan, Pennaeth Polisi, Rhaglenni ac Ymgysylltu, Taith (EB) Rebecca Payne, Swyddog Prosiect, Taith (RP)
Ysgrifenyddiaeth gynorthwyol:	Delyth Johnson, Gweinyddwr (DJ), Taith

Cofnodion		**Gweithred**
Eitem ar yr agenda	**Eitem**	
1	**Croeso a chyflwyniadau**	
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ac fe'u hatgoffwyd fod y cyfarfodydd hyn yn gyfle i gael trafodaeth anffurfiol am ddatblygiadau rhaglen, ac i gael eu hadborth a'u barn ar amrywiol bolisïau, prosesau a chyfathrebu. Nid yw'r cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd gwneud penderfyniadau, ond bydd y trafodaethau a'r adborth a dderbynnir yn helpu Taith i lywio unrhyw gynigion y mae'n eu gwneud i Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd, sy'n gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau allweddol fel rhan o'r rhaglen.	
2	**Diweddariadau**	
2.1 **2.2**	**Llwybr 2 2023** Ariannwyd 16 o brosiectau yng ngalwad Llwybr 2 2023 ar draws y sectorau ysgolion, ieuenctid, Addysg Bellach (AB) a VET (Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol), gyda chyfanswm gwerth ychydig o dan £900,000. Bydd y prosiectau hyn yn cychwyn o 1 Mai 2024. Os hoffai aelodau ddarganfod rhagor am y mathau o brosiectau a ariannwyd, mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ariannwyd a'u crynodebau prosiect i'w gweld ar dudalen canlyniadau gwefan Taith. **Llwybr 1 2024** Daeth yr alwad am gyllid ar gyfer Llwybr 1 2024 i ben ar 20 Mawrth 2024.	

2.3	Mae cyllid Llwybr 1 yn cefnogi symudedd allanol a mewnol cyfranogwyr unigol neu grwpiau o gyfranogwyr. Mae cyllid ar gael i ddysgwyr, pobl ifanc a staff i ymgymryd â lleoliadau cyfnewid rhyngwladol, sy'n cynnig cyfleoedd i rannu dysgu, profi diwylliannau gwahanol a datblygu sgiliau newydd. Roedd Taith yn falch iawn o fod wedi derbyn ceisiadau gan ystod eang o sefydliadau ar draws yr holl sectorau cymwys. Mae ceisiadau'n cael eu gwirio i weld a ydynt yn gymwys ar hyn o bryd a chânt eu hanfon i'w hasesu at ein haseswyr allanol yn fuan. Bydd Taith yn cyfleu'r canlyniadau i ymgeiswyr erbyn diwedd mis Mehefin. **Gwerthuso effaith prosiectau** Roedd Taith eisiau diolch i'r holl aelodau am eu cyfraniadau defnyddiol i drafodaethau ar werthuso prosiectau yn ystod y cyfarfodydd sector-benodol diwethaf. Mae'r adborth hwn wedi'i ddefnyddio fel sail ar gyfer creu ffurflenni adborth cyfranogwyr Taith, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.	
3	**Pynciau i'w Trafod**	
3.1 **3.1a**	**Rhannu effaith** Mae dangos effaith Taith yn hanfodol i helpu i sicrhau cyllid ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol. Gan fod gan Gymru Brif Weinidog newydd bellach, yn ogystal â Gweinidog Addysg newydd, mae gan Taith ddiddordeb mawr mewn clywed syniadau ar sut y gallwn nid yn unig rannu effaith y prosiectau a'r teithiau hyn gyda Gweinidogion a phobl Cymru, ond hefyd i godi proffil Taith a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen i'r rhai a allai elwa'n fawr o'r cyllid grant hwn. **Astudiaethau achos:** Ar hyn o bryd mae Taith yn rhannu effaith trwy astudiaethau achos, negeseuon cyfryngau cymdeithasol a thrwy ei gylchlythyr. Er bod nifer fawr o brosiectau wedi'u hariannu, mae nifer yr astudiaethau achos sydd gennym yn dal yn gymharol isel. Gofynnwyd i'r aelodau a oedd ganddynt farn ar sut y gallai Taith gynyddu nifer yr astudiaethau achos y mae'n eu derbyn. Beth fyddai'n annog pobl i ystyried gwneud astudiaeth achos? Codwyd y pwyntiau canlynol: • Cynigiodd Prifysgolion Cymru ymweliad Taith â'u grŵp Cyfathrebu i drafod astudiaethau achos ymhellach. Gweithred: Bydd CR yn cysylltu i drefnu'r cyfarfod hwn. • Awgrymwyd templed astudiaeth achos er mwyn i sefydliadau gael arweiniad ar y cwestiynau penodol yr hoffai Taith eu hateb. Cadarnhaodd CR fod y cwestiynau hyn ar gael yn rhan derbynwyr grant y wefan, ond cydnabu y gallai fod yn anodd dod o hyd iddo a bydd yn edrych ar wneud y ddogfen hon yn fwy hygyrch ar y wefan.	**CR** **CR**

3.1b

3.1d **3.2**	• A yw'n bosib cael dolen electronig y gellir ei rhannu i'r cylchlythyr er mwyn iddo gael ei rannu'n ehangach? Bydd Taith yn ystyried hyn. • Mae aelodau yn ei weld yn ddefnyddiol. Dywedodd un aelod y gallai fod yn gliriach ble i ddod o hyd i wybodaeth benodol am brosiect, byddai'r gallu i fynd yn uniongyrchol at y wybodaeth sydd fwyaf defnyddiol yn ddefnyddiol. Cytunodd CR a soniodd fod Taith yn archwilio defnyddio MailChimp fel bod y wybodaeth yn gliriach ac yn haws ei defnyddio. **Syniadau eraill:** Gofynnwyd i'r aelodau beth hoffent ei weld a fyddai'n helpu i arddangos effaith? A oes unrhyw syniadau eraill ynglŷn â sut y gallai Taith ddangos yr effaith orau ac arddangos y prosiectau gwych sydd wedi cael eu hariannu? • Cytunodd yr aelodau bod ffyrdd mwy creadigol o rannu profiadau e.e. gellid ymchwilio ymhellach i gystadleuaeth ddiweddar y Pasg. **Ymgysylltu a chefnogi unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol** Mae Taith yn ymrwymedig i sicrhau bod lleoliadau cyfnewid rhyngwladol yn fwy cynhwysol a hygyrch. Mae ei strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogi pobl sydd wedi'u tangynrychioli mewn lleoliadau cyfnewid rhyngwladol yn y gorffennol i gyrchu cyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys pobl o gefndiroedd difreintiedig, cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl Anabl a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd mae Taith yn darparu: • Cyllid ychwanegol i gefnogi cyfranogwyr sy'n wynebu rhwystrau ariannol i gyfranogiad. Mae dau fath o gymorth cynhwysiant ar gael – ar gyfer pobl Anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. • Mae'r cyllid hwn yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a'i fwriad yw talu'r gost lawn sy'n ymwneud â dileu unrhyw rwystrau i gyfranogiad. Er enghraifft, gall cyfranogwyr o gefndiroedd difreintiedig wneud cais am gyllid ychwanegol ar gyfer costau teithio sy'n creu rhwystr iddynt allu cymryd rhan (e.e. methu â fforddio pasbort neu ddillad neu fagiau priodol). • Mae cyllid ychwanegol ar gael i gyfranogwyr anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol o hyd at 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u hanghenion ychwanegol. • Mae Taith hefyd yn cyfrannu at gost teithio i ganolbwynt trafnidiaeth yn y DU fel rhan o symudedd rhyngwladol. Mae hwn ar gael ar gyfer symudedd grŵp ac ar gyfer symudedd unigol lle mae'r cyfranogwr o gefndir difreintiedig. • Ar gyfer Llwybr 1 2024 ymlaen, bydd sefydliadau sy'n gweithio gyda chyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael swm ychwanegol o £25 gan Gymorth Sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr yr adroddir amdano.	

3.3	• Cyflwynwyd meini prawf asesu newydd ar gyfer Llwybr 1 2024 i sicrhau bod ymgeiswyr yn blaenoriaethu rhoi cyfleoedd i gyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gofynnwyd i'r aelodau a oedd unrhyw beth arall y gallai Taith fod yn ei wneud yn ychwanegol at yr uchod? Beth mae aelodau'n ei weld fel y rhwystrau i gyfranogiad a sut gall Taith sicrhau bod y cymorth y mae'n ei ddarparu yn effeithiol? Hoffai Taith glywed unrhyw feddyliau a syniadau am unrhyw beth y gallai ei wneud i wneud y rhaglen mor gynhwysol a hygyrch â phosibl. • Soniodd aelod am ystyried y rhwystrau ehangach i gyfranogiad a byddai costau cefnogi pethau fel hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn helpu. Gellid hefyd ystyried cymorth emosiynol a lles. • Dywedodd un aelod y gall fod yn anodd llenwi'r ffurflenni ariannu ychwanegol gan fod angen llenwi'r rhain fesul unigolyn ar gyfer pob eitem ac mae hyn yn cymryd llawer o amser. Fel sefydliad sy'n cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig mae'n cymryd llawer o amser i lenwi ffurflen ar gyfer pob dysgwr pan fydd rhai costau ar draws y grŵp (e.e. teithio i'r maes awyr, fisas, yswiriant, costau tra dramor). Roedd cydweithwyr Taith yn ddiolchgar am yr adborth hwn a byddant yn ystyried sut y gellir gwella'r broses hon. • Dywedodd aelod arall fod y sefydliad weithiau'n gwneud y penderfyniad i amsugno'r gost yn hytrach na gofyn am arian ychwanegol oherwydd bod yr amser y mae'n ei gymryd i lenwi'r ffurflenni hyn yn gallu bod yn rhwystredig. • Y rhwystr mwyaf fel ysgol arbennig yw dod o hyd i'r cludiant cywir yn ogystal â dod o hyd i ysgolion cyfnewid sy'n addas. Byddai'n dda pe bai rhyw fath o gronfa ddata o fusnesau/ysgolion/sefydliadau a fyddai'n cefnogi'r gofynion hyn fel adnodd yn y dyfodol. • Cododd aelod fod sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ddifreintiedig yn enwedig gyda'r rhai â phroblemau iechyd meddwl yn codi'r risg efallai na fydd cyfranogwyr yn gallu mynd ar y daith ar y funud olaf. Mae Taith wedi bod yn ddefnyddiol gyda chyngor ac yn hyblyg pan fydd hyn wedi digwydd, byddai'n rhywbeth y mae angen i Taith ei gadw mewn cof ar gyfer y dyfodol. **Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer symudeddau mewnol** Fel rhan o Lwybr 1 ar hyn o bryd, gall sefydliadau wneud cais am 30% ar ben yr hyn y maent wedi gwneud cais amdano ar gyfer symudedd allanol i ariannu symudiadau mewnol i Gymru. Hoffai Taith gael barn aelodau ynghylch a yw'r trothwy 30% yn ddigon uchel ac a hoffent i'r ganran gael ei chynyddu. Pe bai canran uchaf y cyllid mewnol yn cael ei gynyddu ni fyddai unrhyw gyllid ychwanegol i dalu am hyn, byddai'n cael ei gymryd o'r gyllideb symudedd allanol. Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau:	**EB/WB/CR /RP/SJ**

	• Nid yw 30% yn ddigon yn enwedig fel sefydliad sy'n gweithio gyda phartneriaid ym Mrasil. Mae'r hediadau allan ac i mewn yn ddrud. • Cytunodd yr Aelodau fod symudedd mewnol yn bwysig i feithrin partneriaethau. • Mae ymweliadau symudedd mewnol yn helpu i adnabod gwaith y ddau sefydliad. Mae cael yr hyblygrwydd i gynyddu symudedd mewnol o fewn y gyllideb yn ddefnyddiol. • Mae cynnal y sefydliad partner yn bwysig, weithiau nid yw'r cyllid yn cyfateb i nifer y cyfranogwyr a allai ddod. Esboniodd EB fod Taith wedi trafod codi'r swm ar gyfer symudiadau mewnol yn flaenorol gyda Llywodraeth Cymru a bydd yn ei godi ymhellach i weld a all fod yn fwy hyblyg ac felly mae'r adborth hwn gan aelodau yn ddefnyddiol iawn.	
4	**Eitemau a godwyd gan aelodau'r grŵp rhanddeiliaid sector**	
4.1	Holodd aelod a ellid meithrin gwell cyfathrebu rhwng sefydliadau sy'n gwneud cais / sy'n ystyried gwneud cais am gyllid Taith tebyg fel y gellid rhannu cyngor/profiadau. Amlygodd Taith ei fod yn darparu sesiynau Holi ac Ateb yn ystod y galwadau ariannu ac y bydd yn ymchwilio i ffyrdd eraill a fyddai'n helpu sefydliadau i rannu/cyfathrebu.	**EB/WB/CR /RP/SJ**
5	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**	
5.1	Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Medi, dyddiad i'w gadarnhau.	